**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1249

# Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

**Amnewid rheoliad 4 (diwygio Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016)**

**4.** Yn lle rheoliad 4 rhodder—

"**Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016**

**4.** Yn rheoliad 2(2) o Reoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016(**1**), yn lle "yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd" rhodder ", i'r graddau y bo'n ofynnol at ddibenion cyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu, yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y mae'n cael effaith yn rhinwedd adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (gan gynnwys, i'r graddau y bo'n ofynnol, fel y mae'n cael effaith o bryd i'w gilydd) ac mae i "cyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu" yr ystyr a roddir i "relevant separation agreement law" yn adran 7C(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018"(**2**)

(**1**) O.S. 2016/665 (Cy. 182), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O dan Erthygl 138 o'r cytundeb ymadael (fel y diffinnir "withdrawal agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020) ac adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 bydd rhaglenni a gweithgareddau penodol yr Undeb yr ymrwymwyd iddynt o dan fframwaith ariannol amlflwydd 2014-20 a phersbectifau ariannol blaenorol yn parhau i gael eu llywodraethu gan gyfraith berthnasol yr UE sy'n gymwys hyd nes y daw'r rhaglenni a'r gweithgareddau hynny i ben. Mewnosodwyd adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gan adran 5 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Mewnosodwyd adran 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gan adran 26(2) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.